Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Y Castell
Lôn Hylas
Rhuddlan
Sir Ddinbych
LL18 5AG

18/11/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Tachwedd 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol y Castell yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Canolbwyntio gwaith hunanwerthuso a gwella yn graffach ar yr hyn mae disgyblion yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

- Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau addas ar gyfer gwerthuso gwaith yr ysgol, gyda ffocws clir ar effaith yr addysgu ar ddysgu disgyblion.
- Ar draws yr ysgol, mae arweinwyr yn ymgymryd ag ychydig o weithgareddau hunanwerthuso buddiol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella ac maent yn rhannu'r wybodaeth hon yn briodol â staff.
- Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol buddiol wedi datblygu gallu a hyder staff i werthuso effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion. Mae hyn wedi galluogi arweinwyr i gynnwys arweinwyr canol mewn gweithgareddau monitro a chynyddu'r capasiti mewnol i werthuso gwaith yr ysgol.
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r athrawon yn ymgymryd â gweithgareddau monitro a gwerthuso pwrpasol, fel trafod gwaith disgyblion yn ystod cyfarfodydd staff. Mae hyn yn llwyddo i ddatblygu diwylliant o gydweithio a dull cyson.

- Caiff llywodraethwyr gyfleoedd rheolaidd i fonitro'r ddarpariaeth a chasglu tystiolaeth uniongyrchol i werthuso gwaith yr ysgol yn briodol. Maent yn rhannu'r wybodaeth hon yn bwrpasol gydag aelodau eraill o'r corff llywodraethol.

## Gwella hyder a gallu disgyblion i siarad Cymraeg, mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol

- Mae gan arweinwyr weledigaeth addas ar gyfer datblygu medrau disgyblion wrth siarad Cymraeg. Maent wedi rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol ac mae hyn yn hyrwyddo dull cyson ar draws yr ysgol.
- Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol yn cynorthwyo staff i wella'u medrau siarad Cymraeg yn llwyddiannus. Mae hyn yn datblygu eu gwybodaeth a'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg i hyrwyddo cynnydd disgyblion yn bwrpasol.
- Mae staff yn fodelau iaith addas ac yn defnyddio ystod briodol o strategaethau addysgu i gynorthwyo disgyblion yn dda. Maent yn sicrhau cyfleoedd ystyriol i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol a llai ffurfiol.
- O oedran cynnar, mae disgyblion yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau ystafell ddosbarth sylfaenol. Dros gyfnod, mae sesiynau ymarfer rheolaidd a defnydd pwrpasol o adnoddau, yn cynnwys adnoddau digidol, yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau'n gyson. Wrth iddynt gyrraedd rhan uchaf yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio patrymau iaith a geirfa bob dydd yn hyderus.
- Mae agweddau'r rhan fwyaf o'r disgyblion tuag at ddysgu Cymraeg yn dda.
- Mae staff yn gwneud defnydd addas o ystod o gyfleoedd gwerthfawr, fel perfformio yn Eisteddfod yr ysgol, i gyfoethogi gwybodaeth disgyblion am ddiwylliant Cymru a gwella'u hyder.
- Mae disgyblion yn frwdfrydig ac wedi ymrwymo i'w rolau arwain sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol. Mae hyn yn meithrin ymdeimlad o falchder yn yr iaith ac yn ymestyn ei defnydd o fewn y dosbarth ac yn ystod amseroedd egwyl yn bwrpasol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-y-castell-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol